



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Bywyd Gwyllt

Pecyn Dawnsio Dyffryn Dyfrdwy - Arweiniad i Athrawon

Amcanion Dysgu

Dehongli bywyd gwyllt gwahanol trwy wneud siapiau a symudiadau gyda'r corff.

Meini Prawf Llwyddiant

- Perfformio gwahanol siapiau gyda'r corff a symudiadau fel anifeiliaid.
- Gweithio gydag eraill i greu a pherfformio.
- Defnyddio egni a lefelau gwahanol i wneud y ddawns yn fwy diddorol.

Amser ar gyfer y gweithgaredd

1 Gwers yn yr Ystafell Ddosbarth
1 Gwers Cerddoriaeth a Symudiad

Lleoliad

Gofod Agored yn y neuadd neu du al

Adnoddau

- Brasluniau o'r sesiwn ystafell ddosbarth
- Sgarff neu ruban
- **Cerddoriaeth:** Song of Sienna gan Brian Crain

Y Briff ar gyfer yr Athro

Gweithgareddau Cychwynnol

- Gweithio trwy'r PowerPoint Gwers Ystafell Ddosbarth ar Ddyfrffyrdd





Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Cynhesu Cyn Cychwyn

Dal y Pysgod

Dylid atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cynhesu cyn dechrau ymarfer corff.

- Dylid atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cynhesu cyn dechrau ymarfer corff.
- Disgyblion i sefyll mewn cylch gydag un yn cael ei ddewis i fod yn ddyfrgi a'r plant eraill yw'r pysgod.
- Mae'n rhaid i'r dyfrgi ddewis pysgodyn i fod yn ysglyfaeth iddo trwy ddweud enw disgybl arall yn y cylch a dechrau symud tuag atyn nhw mewn llinell syth ac uniongyrchol.
- Cyn iddyn nhw gael eu dal mae'n rhaid i'r pysgodyn ddweud enw ysglyfaeth newydd.
- Mae'r dyfrgi yn cael 3 cyfle i ddal pysgodyn cyn iddyn nhw orfod ffeirio gyda rhywun arall.
- Mae'r gêm yn parhau nes bod pawb wedi cael y cyfle i fod yn ddyfrgi.

Datblygiad

- Gall y pysgod o amgylch yr ochr wneud symudiadau pysgod yn y fan a'r lle fel eu bod nhw'n ceisio aros mewn un rhan o'r afon fyrlymus.
- Cyflymu symudiad y dyfrgi.
- Yn hytrach nag enwi'r ysglyfaeth rhaid defnyddio cyswllt llygad i dargedu pysgodyn.

Dawns

- Yn y grŵp gwreiddiol o 3 gall ddisgyblion ddefnyddio brasluniau o anifeiliaid i helpu gydag ysbrydoli rhai symudiadau i gynrychioli'r gwahanol anifeiliaid ac i ail-greu sut y byddai'r anifeiliaid yn symud a siapiau eu cyrff.
- Meddwl am y gwahanol feintiau o anifeiliaid a cheisio defnyddio lefelau gwahanol o symudiad a'i wneud yn fwy diddorol trwy newid cyfeiriad.
- Meddwl am egni'r symudiadau (herciog, llyfn, trwm, ysgafn, siarp a meddal).
- Ydyn nhw'n gallu gwneud i'r symudiadau anifeiliaid gwahanol lifo o un symudiad i'r llall er mwyn cynrychioli'r amrywiaeth o fywyd gwyllt yng nghynefin yr afon? Bydd hynny'n eu helpu nhw i ddatblygu eu symudiadau yn ddawns.

Myfyrio

- Gall pob grŵp berfformio eu coreograffi gyda gwerthusiad gan eu cyfoedion.
 - Myfyrio ar y siapiau sydd wedi cael eu creu. Ydyn nhw'n gallu dweud pa anifail sy'n cael ei bortreadu?
 - Myfyrio ar yr egni, gwahanol lefelau a'r teithio rhwng y siapiau.
-



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Oeri

Adlewyrchu 'Musical Statues' Bywyd Gwylt

Atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd oeri'r corff yn iawn ar ôl gwneud ymarfer corff.

- Bydd angen sgarff neu ruban ar bawb.
- Dewiswch wirfoddolwr i arwain gyda symudiadau llif yr afon a meddyliwch am 3 siâp delw bywyd gwylt i'r dosbarth ei adlewyrchu.
- Chwaraewch y gerddoriaeth a chael y disgyblion i adlewyrchu symudiadau o'r afon yn llifo gan yr arweinydd (i'r gerddoriaeth).
- Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio mae'n rhaid i'r gwirfoddolwr wneud siâp delw bywyd gwylt i'r holl ddosbarth ei efelychu.
- Ailadroddwch hyn 2 waith arall a gallwch newid yr arweinydd os y dymunwch.

Myfyrio

Adlewyrchu'n unigol trwy gwblhau un o'r brawddegau ar lafar:

- Y peth wnaeth fy helpu i'n fawr heddiw oedd...
- I wella byddwn yn...
- Y tro nesaf byddwn yn...
- Y peth y gwelais fwyaf anodd oedd...

Adlewyrchu fel dosbarth: a fyddai'n ddefnyddiol parhau i ddatblygu cynnwys y wers hon mewn gwers arall?

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu a gwybodaeth?

www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk